

# Rheolau Ychwanegol sy'n berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr

Gwneir y Rheolau ychwanegol hyn o dan Reol 16A o Reolau'r Cynllun. Maent yn berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr. Mae Rheolau'r Cynllun yn berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr, ac eithrio fel y nodir yn y Rheolau ychwanegol hyn.

1. Bydd y Rheolau ar gyfer Cwynion gan Grwpiau Mawr yn berthnasol i unrhyw gŵyn a nodwyd fel rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr o dan Reol 16A.3 o'n Rheolau.
2. Ni fyddwn yn adolygu cwyn oni bai bod y darparrydd addysg uwch wedi cael cyfle i edrych ar yr hyn a arweiniodd at y gŵyn yn y lle gyntaf. Mae'n bosib y byddwn yn penderfynu edrych ar gŵyn fel rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr, hyd yn oed os nad yw'r myfyriwr sy'n gwneud y gŵyn wedi cwyno'n unigol i'r darparrydd.
3. Mae'n bosib y byddwn yn gosod dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i fyfyrwr ddod â'u cwyn atom er mwyn i'w cwyn gael ei hystyried yn rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr. Ni fydd y terfyn amser hwn yn llai na phedair wythnos o'r dyddiad y byddwn yn ei bennu.
4. Gallwn benderfynu ar unrhyw amser nad yw cwyn gan fyfyrwr unigol yn addas i'w hadolygu fel rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr. Byddwn yn egluro ein penderfyniad i'r myfyriwr ac i'r darparrydd addysg uwch.
5. Os penderfynwn nad yw cwyn myfyriwr yn addas i'w hadolygu fel rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr, gallwn adolygu'r gŵyn honno o dan ein Rheolau arferol.
6. Os penderfynwn nad yw cwyn myfyriwr yn addas i'w hadolygu fel rhan o Gŵyn gan Grŵp Mawr, ac i beidio â'i hadolygu o dan ein Rheolau arferol, gall y myfyriwr a'r darparrydd ofyn i ni ailystyried y penderfyniad hwnnw o dan Reol 10.6 o Reolau'r Cynllun.
7. Byddwn yn penderfynu pa wybodaeth a dogfennau sydd eu hangen arnom i adolygu'r Gŵyn gan Grŵp Mawr.
8. Byddwn yn rhannu gwybodaeth a dogfennau gyda'r holl fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r Gŵyn gan Grŵp Mawr a gyda'r darparrydd addysg uwch.
9. Byddwn yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr sy'n rhan o'r Gŵyn gan Grŵp Mawr a'r darparrydd addysg uwch wneud sylwadau ar y wybodaeth a'r dogfennau yr ydym yn eu hystyried yn berthnasol i'n penderfyniad.
10. Byddwn yn trafod datrysiad addas ar gyfer y gŵyn gyda'r myfyrwyr a'r darparrydd addysg uwch cyn i ni wneud unrhyw Argymhellion.
11. Byddwn yn hysbysu'r myfyrwyr sy'n ymwneud â'r Gŵyn gan Grŵp Mawr a'r darparrydd addysg uwch o'n penderfyniad a'r rhesymau drosto, yn ogystal ag unrhyw Argymhellion yr ydym yn eu gwneud a'r rhesymau dros yr Argymhellion hynny.

12. Ar unrhyw adeg yn ystod ein hadolygiad, mae'n bosib y byddwn yn canfod yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn ddatrysiad rhesymol i'r Gŵyn gan Grŵp Mawr, ac efallai y byddwn yn penderfynu dod â'n hadolygiad i ben ar y sail bod y darparwydd addysg uwch wedi cytuno i roi'r datrysiad rhesymol ar waith.
13. Ni fydd Rheolau 15.2 a 15.3 o Reolau'r Cynllun yn berthnasol i Gwynion gan Grwpiau Mawr.
14. Disgwyliwn i ddarparwyr addysg uwch ein helpu gyda gweinyddiaeth ein hadolygiad o Gwynion gan Grwpiau Mawr. Bydd hyn yn cynnwys rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch argaeledd y broses ar gyfer Cwynion gan Grwpiau Mawr